

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Tachwedd 19ddeg 2025 am 7.00 o'r gloch.**  
**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 19<sup>th</sup> November 2025 7.00pm**

**Presennol/Present** – Is-gadeirydd/ *Deputy Chairperson* Mark Griffiths, Barbara Williams, Dilys Williams, Tammie Williams, Tony Jones  
Clerc / *Clerk* – Geraint Parry

**Cynghorydd Sir / County Councillor** – Carwyn Jones

**1. Ymddiheuriadau/Apologies** - Harri Owen, Gwenann Hughes a Maldwyn Williams

**2. Cofnodion cyfarfod misol 15/10/25/Minutes of monthly meeting 15/10/25**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15fed Hydref fel cywir gan Dilys Williams, eiliwyd gan Mark Griffith / *The minutes of the previous meeting held on 15th of October were accepted as accurate by Dilys Williams, seconded by Mark Griffiths.*

**3. Datgan diddordeb rhagfarnol / Declaration of prejudicial interest**

3.1 Datganodd y Cyng. D Williams fuddiant rhagfarnol personol yng nghais cynllunio 10.2 / *Clr. D Williams declared declared a personal prejudicial interest in planning application 10.2*

3.2 Datganodd y Cyng. T Williams fuddiant rhagfarnol personol yng nghais cynllunio 10.2 / *Clr. T Williams declared a personal prejudicial interest in planning application 10.2*

**4. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

4.1 Ffordd Hafoty - esboniodd y Cyng. Carwyn Jones ei fod wedi codi'r mater gyda'r adran Briffyrdd a bydd y ffordd yn cael ei hystyried ar gyfer ail-wynebu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf / *Hafoty road - Clr. Carwyn Jones explained that he has raised the matter with the Highways department and that the road will be considered for re-surfacing during the next financial year.*

4.2 Cornel wrth Hafoty - esboniodd y Cyng. C Jones fod rhaid i'r ffordd fod yn 5.5 metr o led yn ddigonol ar gyfer llinellau gwyn. Mae posibilrwydd o gael arwyddion ffyrdd fel opsiwn arall i rybuddio gyrwyr am y perygl ar hyd y rhan hon o'r ffordd / *Corner by Hafoty - Clr. C Jones explained that the road must be 5.5meters wide for white lines. There is a possibility of getting road signs as another option to warn drivers of the danger along this section of the road*

4.3 Arolwg Coed - cytunwyd i drefnu arolwg safle i adnabod y coed ar 06/12/25 am 10am / *Tree Survey - it was agreed to arrange a site survey to identify the trees on 06/12/25 at 10am.*

4.4 Cynnal a Chadw mynwentydd - trafodwyd cost cynnal a chadw'r mynwentydd ynghyd â'r fynwent yn Llanfihangel. Tynnwyd sylw at yr angen i hysbysu ein contractwr presennol am y newidiadau sydd ar ddod

*/ Cemetery maintenance - discussed the cost of maintenance of the cemeteries together with the cemetery at Llanfihangel. It was highlighted the need to inform our current contractor of the forthcoming changes.*

**5. Adrodd gan y Cynghorwr Sir / Report by County Councillor – Carwyn Jones**

- 5.1 *Wedi adrodd y broblem ger Minffordd i'r adran Briffyrdd / Have reported the issue by Minffordd to the Highways department.*
- 5.2 *Wedi cysylltu â'r Cyngor Sir am rodd tuag at waith Grŵp Natur Seiriol yn y gymuned - yn aros am gadarnhad gan A Godber / Have approached the County Council for a donation towards Grŵp Natur Seiriol work in the community - awaiting confirmation from A Godber.*
- 5.3 *Wedi rhannu'r adroddiad adeiladu gyda'r Cadeirydd / Have shared the building report with the Chairperson.*
- 5.4 *Wedi mynychu cyfarfod gyda Phrif Swyddog Tân Gogledd Cymru i drafod Gorsaf Dân Biwmares. Mae niferoedd o aelodau yn yr Orsaf Tân wedi lleihau yn ddiweddar. Mae'r Gwasanaeth Tân wedi cytuno i ddarparu injan dân llai a hyrwyddo'r gwasanaeth i gynyddu nifer o aelodau / Attended a meeting with Chief Fire Officer for North Wales to discuss Beaumaris Fire Station. The number of members at the Fire Station have reduced lately, so in response the Fire Service have agreed to provide a smaller fire engine and promote the service to increase member numbers.*
- 5.5 *Mae Cyng. A Roberts wedi dechrau trafodaeth gyda Cyngor Sir ynghylch y cyllid a gynigir ar gyfer y traeth / Clr. A Roberts has started discussion with the County Council regarding the proposed funding for the beach*

**6. Grŵp Natur Seiriol / Seiriol Nature Group**

- 6.1 *Dywedodd y Cynghorydd B Williams ei bod wedi mynychu'r arolwg capiau cwyr o amgylch y pentref ynghyd ag 20 o wirfoddolwyr. / Clr. B Williams advised that she attended the waxcap survey around the village together with 20 volunteers.*

**7. Tir Commin / Common Land**

- 7.1 *Cherry Tree - nodwyd bod y car yn dal i fod wedi'i barcio ar y tir comin gyferbyn â'r eiddo / It was noted that the car is still parked on the common land opposite the property*
- 7.2 *Cae Lili - adroddwyd bod cerbyd yn parcio ar dir comin ger Cae Lily ac yn difrodi'r tir comin / It was reported that a vehicle is parking on common land by Cae Lili and damaging the common land.*

**8. Ymgynghori Llwybr / Footpath consultation**

- 8.1 *Hysbysodd y Clerc fod cais wedi dod i law gan y Cyngor Sir i gofrestru llwybr troed cyhoeddus yn Eglwys Sant Iestyn, Llaniestyn. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais / The Clerk advised of the application has been received from the County Council to register a public footpath at St Iestyn Church, Llaniestyn. Following discussion, it was unanimously agreed to support the application.*

## **9. Hyfforddiant (wedi cylchredeg) / Training (circulated)**

9.1 Aelodau i adael i'r Clerc wybod os am fwcio cwrs / *Training - members to advise the Clerk if they want to book a course.*

## **10. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications:**

10.1 FPL/2025/244, Tan y Coed, Llangoed - cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol a chodi annedd newydd - dim sylwad / *Full application for the demolition of the existing dwelling and erection of a new dwelling together - no comment.*

10.2 HHP/2025/182, Gwelfryn, Llanddona - cais llawn ar gyfer dymchwel rhan o'r annedd presennol ynghyd ac addasu ac ehangu - dim gwrthwynebiad / *Full application for demolition of part of the existing dwelling, together with alteration and extensions - no objection*

## **Penderfyniad Cynllunio / Planning Decisions:**

## **11. Cyfrifon / Accounts**

**Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau canlynol yn unfrydol / Council approved the following payments:-**

11.1 Trwsio Meinciau / *Repair to benches - £330.00*

11.2 Torch / *Wreath - £20.00 + £25 rhodd/donation*

**Incwm / Income: -**

## **12. Gohebiaeth / Correspondence**

12.1 Hyfforddiant Un Llais Cymru – Medi/Rhagfyr / *OVW Training – September/December 2025*

12.2 Ymgynghori llwybr 22/052/1 / *Consultation footpath 22/052/1*

12.3 Lon Hafoty / *Hafoty Road*

12.4 Hyfforddiant am ddim i Gynghorwyr / *Free Councillor training OVW*

12.5 Fforwm cynghorau tref a chymuned / *Town & Community Council forum – meeting 15/12/25 @ 6:30pm*

12.6 Cwyn am glawdd Minffordd, Llansadwrn / *Complaint of hedge by Minffordd, Llansadwrn*

12.7 Cais am wybodaeth / *FOI request*

## **13. UFA / AOB**

13.1 Cais am wybodaeth ynglŷn ar gamfa ac eiddo Tyn Llan - trafodwyd y cais diweddar am wybodaeth, y Clerc i geisio eglurhad ar y cais. / *FOI for information regarding the stile and the property of Tyn Llan - discussed the recent application for information, Clerk to seek clarification on the request.*

13.2 Adroddwyd nad yw goleuadau stryd ger Gorslwyd yn gweithio. Clerc i adrodd ar yr achos / *It was reported that the streetlamp near Gorslwyd is not working. Clerk to report on the matter.*

13.3 Rheoli rhostiroedd - trafodwyd y cais gan y Cyngor Sir i fynychu cyfarfod a chaniatâd i hedfan drôn dros dir comin y Rhos / *Heathland*

*management - discussed the request by the County Council to attend a meeting and permission to fly a drone over the common land y Rhos.*

**14. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 20:25yh.  
Cyfarfod nesaf ar 17/12/25 am 19:00 / *There was no further business to discuss. Meeting ended 20:25pm. Next meeting to be held on 17/12/25 at 19:00pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad